Diweddariadau o WCVA

09 Gorffennaf 2018

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Rydym yn mynd drwy gyfnod o newid yn WCVA ar hyn o bryd. Mae'n gyfle cyffrous i ni ddatblygu ein gweledigaeth i'r sector ac mae angen pobl llawn angerdd ac egni arnom i helpu i wireddu'r weledigaeth hon. Os yw hynny'n taro tant â chi beth am fwrw golwg ar rai o'r swyddi gwag sydd ar gael yn y mudiad.

Mewn newyddion arall, mae mudiadau trydydd sector wedi'u gwahodd i gyfrannu at God Ymarfer Digidol cyntaf Prydain i elusennau, a fydd yn cael ei lansio fis Tachwedd eleni. Nod y cod fydd helpu elusennau i wella eu sgiliau digidol a chynyddu eu gweithgareddau digidol. Ariennir y cod gan Grwp Bancio Lloyds a Sefydliad Co-op. Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y wefan.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Gwirfoddoli

Fay yn canfod gobaith mewn gwirfoddoli

Mae cyfraniad gwirfoddol eithriadol Frances ‘Fay’ Jones yn helpu pobl ledled Gogledd Cymru sydd wedi colli eu golwg i fwynhau llyfrau, gwau a chymdeithasu.

Sut mae diolch i bobl ifanc sydd yn gwirfoddoli?

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud yr hyn maent yn ei wneud am sawl rheswm. Mae rhai am newid y byd, eraill eisiau profiadau newydd, a llawer iawn eisiau dysgu sgiliau newydd.

Cyffredinol WCVA

Aeth WCVA yn wyllt fis Mehefin eleni er lles byd natur ac aelodau o staff

Fis Mehefin eleni cymerodd WCVA ran yn ymgyrch 30 Diwrnod Gwyllt yr Ymddiriedolaethau Natur. Yn y blog hwn, mae Swyddog Cymorth Environet Cymru WCVA,

Chloe Jenkins, yn sôn am ei phrofiadau a'r hyn a ddysgwyd wrth gymryd rhan yn yr ymgyrch.

Cyffredinol trydydd sector

Helpwch i wella ein cymorth i chi

Atebwch arolwg byr iawn i'n helpu ni i'ch helpu chi'n well.

Cyfle i hyfforddi fel Asesydd Nod Ansawdd PQASSO

Mae NCVO yn chwilio am Aseswyr a all ddefnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o ystod o feysydd i gyfrannu tuag at gryfhau ansawdd yn y trydydd sector yng Nghymru ac yn Lloegr.

Ymgynghoriad ar agor nawr ar God Ymarfer Digidol cyntaf y trydydd sector

Gwahoddir mudiadau trydydd sector ledled Prydain i gyfrannu at God Ymarfer Digidol cyntaf Prydain i elusennau a fydd yn cael ei lansio fis Tachwedd eleni.

Arloesi i Arbed – safbwynt trydydd sector

Ar flog WCVA: Alun Jones, Pennaeth Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, ar wersi o'r rownd gyntaf o Arloesi i Arbed.

Cyllid

Gwobrau gwerth £40,000 i gydnabod cyflawniadau

Gwobrau GSK Impact yn derbyn ceisiadau.

Cyllid ar gael ar gyfer prosiectau seibrgadernid

Mae'r Grant Refeniw Seibrgadernid gan Lywodraeth Cymru yn gynnig cyfanswm o £200,000 ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi Strategaeth Diogelwch Seibr y DU yng Nghymru.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Arweinyddiaeth Trydydd Sector ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

Adeiladwch ar y sgiliau sydd gennych eisoes i ddod yn arweinydd mwy arloesol a gwydn

Hoffech chi ddod yn Llythrennog o ran Carbon?

Allyriadau carbon, cynhesu byd-eang, a nwyon ty gwydr – beth a wnelont â chi? Dysgwch pam y dylai'r newid yn yr hinsawdd fod o bwys i'ch mudiad chi a beth i'w wneud yn ei gylch.

Polisi a gwleidyddiaeth

Cyfle olaf i ddweud eich dweud am gyfiawnder yng Nghymru

Angen lleisiau'r trydydd sector i ddylanwadu ar weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru.

Adroddiad newydd yn mesur perfformiad Prydain tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae adroddiad newydd gan rwydwaith UK Support for Sustainable Development (UKSSD) yn dangos am y tro cyntaf sut hwyl mae Prydain yn ei chael arni o ran cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Cynlluniau Llesiant Lleol

Mae Cynlluniau Llesiant Lleol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach ar gael. Bydd y cynlluniau hyn yn llywio datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd lleol yng Nghymru.

Eich Cyfrifoldeb dros Gymru Wydn

Bydd hefyd yn nodi camau ymarferol, syml a chost effeithiol y gallwch eu cymryd i gyfrannu at Gymru wydn tra hefyd yn arbed amser, gwella morâl staff a gwirfoddolwyr, a chyfrannu at gymunedau iachach a mwy bywiog.

Beth fydd y sector yn ei wynebu yn y dyfodol?

Mae Ruth Marks, Prif Weithredwr WCVA, wedi annerch Cynhadledd Ryngwladol Comisiwn Bevan ar y galwadau, yr heriau a'r cyfleoedd fydd yn wynebu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y trydydd sector yn y dyfodol.